**PECYN GWYBODAETH YMDDIRIEOLWYR ANTHEM**

**YNGLŶN AG ANTHEM**

Sefydlwyd Anthem. Cronfa Gerdd Cymru yn 2018 yn dilyn adroddiad gan Lywodraeth Cymru yn archwilio ffyrdd i gefnogi addysg cerddoriaeth yng Nghymru. Mae'r elusen bellach ar gam cyffrous yn ei datblygiad, gyda Phrif Weithredwr amser llawn, sy'n dwyn grŵp o ymddiriedolwyr a thîm ynghyd i weithio tuag at gyflawni ei gweledigaeth a'i chenhadaeth:

- Ein gweledigaeth yw Cymru lle y gall cerddoriaeth rymuso pob bywyd ifanc.
- Credwn fod cerddoriaeth yn rym creadigol nerthol i bobl ifanc sy'n ysgogi hunanfynegiant, datblygiad personol a llesiant.
- Mae Anthem yn creu cyfleoedd ar draws genres a chymunedau, ac yn meithrin talent amrywiol i gymryd y camau nesaf tuag at yrfaoedd cerddorol.
- Mae Anthem yn gatalydd ar gyfer cerddoriaeth ieuenctid yng Nghymru, ac yn ariannu gwaith a fydd yn creu newid, yn creu cysylltiadau i ehangu gwaith partneriaeth, ac yn galluogi arferion gorau i ffynnu.

Mae Anthem eisiau sicrhau bod egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth – hygyrchedd, cynwysoldeb, parch a gwahaniaeth – yn sail i holl feysydd gwaith y sefydliad a'i nod yw eu hyrwyddo ymhlith ei bwrdd, ei harferion

cyflogaeth ac ar draws ei gwaith. Mae Anthem yn llywio ei gwaith i fod yn gydweithredol, arloesol, cynhwysol a chreadigol, ac i ysbrydoli.
[www.anthem.wales](http://www.anthem.wales)

**Y RÔL**

Mae Anthem yn dymuno penodi ymddiriedolwr / cyfarwyddwr bwrdd i ymuno â'n tîm o ymddiriedolwyr. Rydym yn edrych am bobl sy'n rhannu ein hangerdd am gerddoriaeth, pobl ifanc a Chymru, sydd â diddordeb mewn helpu pobl ifanc i gyflawni'u potensial drwy gerddoriaeth. Yn benodol, mae gennym ddiddordeb mewn pobl sydd â phrofiad o'r canlynol:

- Busnes Cerddoriaeth
- Codi Arian
- Gwaith Ieuenctid
- Technoleg Gwybodaeth
- Adnoddau Dynol
- Cyfraith Elusen

Lawnsiodd Anthem raglenni cronfa yn 2022 wedi'u cynllunio i dorri'r rhwystrau at gerddoriaeth mae pobl ifanc yn eu gwynebu. Hyd yn hyn rydym wedi cefnogi 45 o brosiectau cerddoriaeth ieuenctid ledled Cymru drwy ein Cronfa Atsain ac yn 2024 ffeindiom ni ein pedwerydd garfan o gerddorion ifanc fel rhan o'n Fforwm FFWD>. Mae ein Porth Anthem yn borth wedi'i gynllunio i gefnogi pobl ifanc ar draws Cymru ddod o hyd i lwybrau mewn i gerddoriaeth a gyrfaoedd. Yn 2023 rhedon ni bedwar digwyddiadau arddangos, yn rhoi cyfle i fandiau ifanc i berfformio, a rydym ar y funud yn cynllunio mwy o ddigwyddiadau arddangos ar gyfer 2024.

Mae Anthem yn cael ei rhedeg gan dîm bach o staff ac mae gan ymddiriedolwyr Anthem rôl weithredol mewn datblygiad strategol, codi arian, a rheolaeth ariannol, ac yn cynorthwyo'r Prif Weithredwr yn rheolaidd. Mae gan y Bwrdd nifer o is-bwyllgorau sy'n canolbwyntio ar feysydd busnes gan gynnwys cyllid a chodi arian. Mae rhaglen codi arian llwyddiannus yn

hanfodol i gylawni nodau ac amcanion Anthem, ac i sicrhau cynaladwyedd hir-dymor yr elusen. Mae'n bwysig fod bob aelod bwrdd yn ymrwymo â, deall a chefnogi codi arian. Rydym hefyd yn rhedeg Fforwm Ieuenctid.

Dyma ambell beth pwysig ynglŷn â'r rôl:

- Mae bod yn ymddiriedolwr / cyfarwyddwr bwrdd yn swydd wirfoddol, ddigyflog.
- Mae'r ymddiriedolwyr yn cydweithio i drafod strategaeth a datblygiad busnes ar gyfer Anthem mewn cydweithrediad â thîm y staff.
- Bydd costau teithio a mynediad a threuliau rhesymol eraill yn cael eu talu am fynd i gyfarfodydd a digwyddiadau ar ran Anthem.
- Ar hyn o bryd, mae Bwrdd Anthem yn cwrdd bob dau fis, dros zoom yn bennaf, ond ceisiwn gynnal dau gyfarfod wyneb yn wyneb bob blwyddyn.
- Mae'r is-bwyllgorau'n cwrdd rhwng y cyfarfodydd hyn dros zoom.
- Cyfnod sefydlog o 3 blynedd sydd i swydd yr ymddiriedolwyr, gyda'r opsiwn o gael eu hailethol am gyfnod pellach o 3 blynedd.

**SUT I YMGEISIO**

Mae Anthem yn sefydliad cyfle cyfartal a chroesawn geisiadau gan bob unigolyn sydd â diddordeb. Mae Anthem yn rhan o'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd ac mae'n gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol.

Rydym yn awyddus i gyfathrebu gydag unigolion sydd wedi'u tangynrychioli / sydd wedi'u hesgeuluso neu'u hallgáu o gymuned y celfyddydau, a byddem yn croesawu'n benodol geisiadau gan bobl anabl, pobl Ddu, Asiaidd ac o gefndiroedd ethnig amrywiol, pobl LGBTQ+, ac unigolion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol sydd wedi'u tangynrychioli. Mae Anthem yn croesawu ceisiadau oddi wrth bobl sy'n dysgu'r Gymraeg neu sy'n rhugl yn y Gymraeg.

I wneud cais am y rôl, anfonwch y canlynol

- copi o'ch CV neu fywgraffiad

- geirda gan rywun sy'n eich adnabod yn dda
- llythyr eglurhaol heb fod yn fwy nag un ochr o A4 neu dystlythyr fideo yn esbonio pam eich bod yn dymuno ymuno â Bwrdd Anthem

i Gadeirydd Anthem, Ryan Singh chair@anthem.wales

Terfyn amser cyflwyno ceisiadau yw 5pm ar ddydd Gwener yr 2il o Awst.

Byddwn yn cytuno fesul unigolyn ynglŷn â dyddiadau cyfweliadau ar gyfer ymgeiswyr y rhestr fer, ond byddant yn cael eu cynnal yn ystod wythnos 6ed Mawrth.

Os oes gennych unrhyw ofynion arbennig i'ch galluogi i wneud cais i'r rôl hon, neu os hoffech gael sgwrs anffurfiol ynglŷn â'r rôl, cysylltwch â'n Prif Weithredwr, Rhian Hutchings rhian.hutchings@anthem.wales

**DISGRIFIAD O RÔL YMDDIRIEDOLWR**

Mae'r ymddiriedolwyr yn cymryd rhan weithredol yng nghyfarfodydd y Bwrdd i alluogi'r Bwrdd i wneud penderfyniadau a gwneud yn siŵr bod rhwymedigaethau'r cwmni'n cael eu cyflawni. Bydd gan yr ymddiriedolwyr rôl weithredol yn llunio polisi ac yn natblygiad strategol Anthem ar lefel y Bwrdd, gan gyfarfod â phartneriaid allweddol a chynorthwyo'r Prif Weithredwr yn rheolaidd.

CYFRIFOLDEBAU A DYLETSWYDDAU

- Mynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn rheolaidd. Caiff y cyfarfodydd fel arfer eu cynnal bob dau fis ac yn achlysurol bydd angen cwrdd yn amlach.
- Gwasanaethu ar is-bwyllgorau'r Bwrdd yn ôl y gofyn
- Darllen papurau sy'n cael eu darparu cyn y cyfarfod er mwyn paratoi
- Cyfarfod ag aelodau tîm Anthem yn ôl y gofyn i helpu i ddatblygu rhaglenni
- Cynghori ar ddogfennau prosiect Anthem yn ôl y gofyn

- Mynychu prosiectau Anthem yn ôl y gofyn, gan gynnwys Fforwm Ieuenctid Anthem a'r Porth Digidol
- Trafod a phleidleisio ar benderfyniadau busnes Anthem ar y cyd ag ymddiriedolwyr eraill y Bwrdd
- Defnyddio eich profiad a'ch gwybodaeth i helpu Anthem i ddatblygu
- Yn helpu Anthem yn weithredol i godi arian
- Cynrychioli Anthem yng nghyfarfodydd eraill y sector
- Cadw cyfrinachedd Anthem yn ôl y gofyn

PROFIAD GOFYNNOL

- Nid oes angen bod gennych brofiad o fod ar Fwrdd o'r blaen. Rydym yn edrych am rywun sydd ag angerdd tuag at bobl ifanc a cherddoriaeth yng Nghymru, ac sydd ag amser i gyfrannu.
- Bydd gennych brofiad personol o ddysgu cerddoriaeth, busnes cerddoriaeth neu ddatblygiad cerddoriaeth yng Nghymru neu'r tu hwnt.
- Bydd gennych wybodaeth a phrofiad i'w cynnig o'ch swydd bresennol a'ch gyrfa a all helpu Anthem i gymryd ei chamau nesaf. Gallai hyn olygu cynllunio busnes, gwaith elusennol, rheoli, cyfrifyddu, marchnata, rheoli prosiectau, neu godi arian.
- Bydd gennych sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu, a fydd yn eich galluogi i weithio gydag aelodau eraill y Bwrdd, rhanddeiliaid, partneriaid ariannu a staff yn y sefydliad.
- Bydd hefyd gennych ddealltwriaeth o ddyletswyddau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd cyfreithiol o fod yn gyfarwyddwr cwmni ac ymddiriedolwr elusen.

Cewch wybod mwy am fod yn ymddiriedolwr ar wefan Llywodraeth y DU: https://www.gov.uk/government/publications/the-essential-trustee-what-you-need-to-know-cc3